

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Aled Ellis (Henllan) a gweddiwl y teulu yn dilyn marwolaeth ei fam ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Hywel Wyn Davies a Bessie Owens (Cefn Berain) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, ac at Elena Owen (Llanefydd) dreuliodd noson yn Ysbyty Glan Clwyd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Cofiwn amdanant oll a'u teuluoedd, a dymunwn wellhad buan iawn iddynt.
- Llongyfarchiadau mawr i Aled a Jen Jones (Saron) ar enedigaeth merch fach, Harper Skye; ac i Sera Evans (Saron) a Cai ar enedigaeth mab. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma i'r ddau deulu, a chyflwynwn hwy i'w ofal.

## Cysylltu hefo Gwion

Os byddwch angen cysylltu â Gwion, plis ffoniwch rif ffôn y tŷ (582644), neu ffoniwch rif ffôn symudol Sarah, sef 07900 308461, gan fod Gwion yn cael trafferth hefo'i ffôn symudol ar hyn o bryd. Diolch!

## I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod Nadoligaidd nos Lun, Tachwedd 28ain yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel (LL18 5BT) am 7.30 gyda Robin Oake, cyn Brif Gwnstabl, a thad y Ditectif Gwnstabl Stephen Oake gafodd ei lofruddio tra ar ddyletswydd yn 2003 ond a gafodd fedal gan y Frenhines am ei ddewrder. Robin Oake yw awdur y ddau lyfr “Father Forgive: How to forgive the unforgivable” a “Father Forgive: The Forgotten ‘F’ Word”. Croeso i bawb. £3 yn cynnwys bwffe. (Hwn fydd y cyfarfod olaf y byddant yn ei drefnu.)
- **GOFAL BUGEILIOL GYDA HENOED, AC EFO BOBL SY'N WYNEBU DIWEDD OES** – Hyfforddiant gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Rhagfyr 1af o 10.30 – 3.00 i weinidogion, ymgeiswyr ac eraill sy'n ymweld â chleifion. Mae'r hyfforddiant, fydd trwy gyfrwng y Saesneg, am ddim. Fe ddarperir cinio, ond rhaid archebu lle ymlaen llaw. Rhowch eich enw i Mair HEDDIW os oes gennych ddiddordeb.
- **CWRDD CHWARTER** yn cyfarfod yng Nghapel Pendref, Rhuthun nos Iau, Rhagfyr 1af am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, ceir anerchiad y Llywydd, Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan ac fe weinyddir y Cymun gan y Parch. Graham Floyd.
- **HWYL YR WYL** - Mae'r Nadolig yn agosáu ac ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd, bydd diwrnod yng Ngholeg y Bala i blant 7-11 oed rhwng 10.00 a 5.30 i ddathlu, ac a fydd yn gorffen gyda pharti Nadolig! Os hoffech archebu lle i'ch plentyn, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.
- **GWASANAETH CAROLAU A PHLYGAIN BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 11eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20<sup>fed</sup> Tachwedd 2016

Darllenid y Dydd

2 Pedr 1:19-21

(BCND tud.260 / BCN tud.238)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i'r oedfaon ym Mro Aled y bore yma. Ar wythnos mor stormus a chyfnewidiol o ran y tywydd, mae'n gysur i ni allu dod at ein gilydd i addoli Duw digyfnawid sydd yr un peth ddoe, heddiw ac am byth.

Mae'r testun yma wedi bod ar fy meddwl ers peth amser, sef sut i ymddwyn ac ymateb mewn byd sydd mor gyfnewidiol. Meddyliwch, mae popeth yn newid mor aml – ffasiynau, y tywydd, gwleidyddiaeth, prisiau tai a hyd yn oed ffiniau gwledydd! Tybed a oes unrhyw beth yn aros yn gyson yn y byd yma? Sut mae Cristion i fod i ymateb i hyn? Sut mae Cristion i fod i fyw yn y byd yma? Ai newid Y Beibl i ffitio gyda'n hathroniaeth fodern ddylem wneud? Ai troi cefn ar ein ffydd, gan ei alw'n hen ffasiwn a sych ddylem wneud?

Mae cynnig i'w gael yn Salm 146: <sup>3</sup> *Paid trystio'r rhai sy'n teyrnasu – dyn meidrol sydd ddim yn gallu achub.* <sup>4</sup> *Mae'r anadl yn mynd allan ohono, ac mae'n mynd yn ôl i'r pridd; a'r diwrnod hwnnw mae ei holl bolisiau yn dod i ben!* Dyna i chi neges wahanol i'r hyn sydd yn y newyddion! Ymysg y corwynt o erchylltra a'r storm o newidiadau; ymysg yr holl arweinwyr sy'n ceisio tynnu gwledydd i gyfeiriadau gwahanol; ymysg cymhlethdod gwleidyddiaeth rhyngwladol a rhyfeloedd – mae Un yn ddigyfnawid. Mae'r Salmydd yn ein hatgoffa o hanfodion bywyd. Rydym ni i gyd yn feidrolion – hen ac ifanc, enwog a di-nod. Rydym ni i gyd un dydd yn mynd i ddychwelyd i'r pridd gyda'n syniadau!

Yn erbyn y cefndir yma, dowch i ni roi'r geiriau o weledigaeth Daniel ym mhennod 7:14 – *A derbyniodd awdurdod, anrhydedd a grym. Roedd rhaid i bawb, o bob gwlad ac iaith ei anrhydeddu. Mae ei awdurdod yn dragwyddol – fydd e byth yn dod i ben. Fydd ei deyrnasiad byth yn cael ei dinistrio.* Ar y ddaear, mae dynion meidrol sydd ddim yn gallu achub. Mae ein Tad Nefol yn Dduw tragwyddol, sydd â'i deyrnasiad yn ddi-ddiwedd. Mae'r Duw hynafol yma yn haeddiannol o'n holl egni, amser ac addoliad.

Yn wahanol i'r pethau cyfnewidiol rydym ni mor aml yn pwysu arnyn nhw, ni fydd Duw byth yn ein gadael ni i lawr, byth yn troi ei gefn arnom ni, na byth yn dod i ben. Yn fwy rhyfeddol a gwyrthiol fyth ydy'r ffaith fod y Duw yma wedi anfon ei unig fab, Iesu Grist, i farw yn ein lle ni. Y cynnig mae'r Salmydd yn ei roi ydy y dylem ddal yn gadarn at eiriau'r Beibl ac at ein ffydd yn Iesu Grist.

**DILYNWCH NI:** [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

*Gwion*

**Darllenid Wythnos Nesaf**

Esther 4:12-17 (BCND tud.454 / BCN tud.416)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 23<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.  
➤ **“Syriad yn crwydro oedd fy nhad”**: Ffoaduriaid, y Beibl a ni.  
Y tro hwn, byddwn yn cyfarfod yng Nghapel Llanefydd a rhai o'r cwestiynau fydd yn cael eu hystyried fydd: *Pwy yw fy nghymydog? Sut mae'r eglwys i fod i ymateb i ffoaduriaid? Beth am y gwahaniaeth crefyddol?* Dewch am banded a sgwrs erbyn 7.00, bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 24<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.  
➤ **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.  
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu. \*\* Yn dilyn yr oedfa, bydd y Parti Dynion yn dechrau ymarfer ar gyfer Gwasanaeth Carolau a Phlygain yr Ofalaeth. Croeso i bawb!

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.  
➤ Cymdeithas Llansannan: Ymweliad â Chanolfan Dydd, Waengoleugoed, a sgwrs gan Dr Mari Lloyd Williams am 7.30. Enwau i Carys (870646) neu Dylan (870286) os gwelwch yn dda. Os oes gennych unrhyw eitemau newydd nad ydych eu hangen, byddent yn gwerthfawrogi petaech yn dod â nhw hefo chi gan fod ganddynt 'siop' yno sy'n gwerthu pob math o bethau – o fwydydd, i bethau bach fel menyg / sanau, neu anrhegion – a thrwy werthu'r eitemau hyn i rai sy'n galw yno, maent wedi codi £1,000+ ar gyfer rhedeg y Ganolfan. Croeso i bawb.
- Mawrth – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30. Croeso i'r holl aelodau.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.  
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Iau – 24<sup>ain</sup> ➤ Bydd Cymdeithas Peniel yn cyfarfod am 7.30 pryd y cawn sgwrs a sleidiau gan Dr Prysor Williams.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.